



Dr Chris Llewelyn

Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association**

Un Rhodfa'r Gamlas

Heol Dumballs

Caerdydd

CF10 5BF

Ffôn: 029 2046 8600

One Canal Parade

Dumballs Road

Cardiff

CF10 5BF

Tel: 029 2046 8600

Dyddiad / Date: 12/3/2023

Gofynnwch am / Please ask for: Chris Llewelyn

Llinell uniongyrchol / Direct line:

Ebost / Email: chris.llewelyn@wlga.gov.uk

ANFONWYD DRWY E-BOST

Annwyl Sam,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf 2023.

Mae CLILC, drwy gydol llinell amser y Bil arfaethedig a'i wahanol gamau, ac yn benodol drwy goladu ac adeiladu'r ymateb ymgynghori ar y cyd, wedi cael llawer o drafodaethau gyda chynghorau ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig.

Bu llawer o gefnogaeth mewn egwyddor i ddyheadau'r Bil arfaethedig, yn enwedig pwysigrwydd addysg awyr agored i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc, gyda'r prif fuddion yn cael eu hamlygu megis mwynhad, dysgu drwy brofiad, iechyd a lles, mwy o gymhelliant ac awydd i ddysgu.

Cytunodd y cynghorau bod gwarant, sy'n rhad ac am ddim, yn gyfle i gymryd rhan mewn profiad addysg breswyl yn yr awyr agored o fudd cadarnhaol i blant a phobl ifanc, ac wedi ystyried rhwystrau ac ystyriaethau cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn gyffredinol, teimlwyd y byddai angen sefydlu trefniant ffurfiol gyda chyflenwyr, ac i'r system fod yn anniogel, yn atebol ac yn cwrdd â'r disgwyliad heb risg o ymglyfreitha. Yn olaf, mae rhywfaint o fyfyrion ar ystyr 'gwarant' yn y cyd-destun hwn yn ofynnol.

Fel bob amser, rydym yn parhau i fod yn hapus i weithio gyda chi a Llywodraeth Cymru ar amcanion polisi sy'n ymwneud â'ch Bil arfaethedig.

Cofion cynnes

Chris Llewelyn

Prif Weithredwr

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith. Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

[@WelshLGA](https://twitter.com/WelshLGA)